



ASA

Prifysgol Glyndŵr

Adolygiad Sefydliadol
gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Addysg Uwch

Mawrth 2013

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Glyndŵr	2
Nodweddion o arfer da.....	2
Argymhellion	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith.....	3
Ynghylch Prifysgol Glyndŵr	3
Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Glyndŵr	5
1 Safonau academiaidd.....	5
Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol	5
Defnydd o arholwyr allanol	5
Asesiad a safonau	7
Gosod a chynnal safonau rhaglenni	8
Meincnodau pwnc	9
2 Ansawdd cyfleoedd dysgu	9
Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu.....	9
Adnoddau dysgu	10
Llais y myfyrwyr	11
Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau	12
Mynediad i'r Brifysgol	13
Cwynion ac apeliadau	13
Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd.....	14
Cefnogi myfyrwyr anabl.....	14
Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol	15
Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig	15
Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol.....	17
Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu.....	19
Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle.....	19
Siarter y myfyrwyr	20
3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu.....	20
4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu	21
Rhestr termau.....	23

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Glyndŵr. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng 18 a 22 Mawrth 2013 a chafodd ei weithredu gan dîm o bum adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro John Baldock
- Yr Athro Stephen Denyer
- Yr Athro Ian Robinson
- Ms Briony Williams (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Mr Tony Platt (ysgrifennydd yr adolygiad).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Glyndŵr a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu
 - yr wybodaeth a ddarperir am gyfleoedd dysgu
 - gwelliant i gyfleoedd dysgu
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r sefydliad yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth². Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol](#) o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y rhestr termau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.qaa.ac.uk/aboutus/pages/default.aspx

³ www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Glyndŵr

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Glyndŵr (y Brifysgol).

- Mae'r safonau academiaidd yn y Brifysgol **yn cyflawni disgwyliadau'r DU** mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol **yn cyflawni disgwyliadau'r DU**.
- Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni disgwyliadau'r DU**.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol **yn cyflawni disgwyliadau'r DU**.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y **nodweddion o arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Glyndŵr.

- Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd da o'i harbenigedd eang a chryf mewn datblygu a darparu dulliau e-ddysgu (paragraff 2.12.3).
- Mae Canolfan Asesu Anabled y Brifysgol yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr gydag anabledau ar gampws Wrecsam (paragraff 2.8.1).
- Mae'r Dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn darparu gwybodaeth rheoli gyfredol a hanesyddol sy'n hygyrch i'r staff ar bob lefel, y gellir ei defnyddio hefyd i hybu gwelliant (paragraff 2.4.1).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol Glyndŵr:

- y dylai rheoliadau ar gyfer arholi allanol nodi bod samplu sgriptiau asesu bob amser yn cynnwys yr holl safleoedd darparu, ac y dylai adroddiadau arholwyr allanol adlewyrchu'r samplu yma, ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 (paragraff 1.2.2)
- yn sefydlu a gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella'r adnoddau dysgu a'r gefnogaeth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, erbyn dechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 (paragraff 2.2.1)
- yn sicrhau bod problemau gydag adnoddau dysgu yr adroddir amdanynt drwy'r prosesau comisiynu a monitro yn derbyn sylw'n effeithiol ac mewn da bryd, o ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 ac wedi hynny (paragraff 2.2.2)
- yn cynnwys aelodau panel allanol ymhob ymweliad cymeradwyo rhaglenni â chanolfannau cydweithredol, o ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 ac wedi hynny (paragraff 2.11.5).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau'r camau gweithredu dilynol** y mae Prifysgol Glyndŵr yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academiaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Mae'n gwneud cynnydd mewn perthynas â rhannu adroddiadau arholwyr allanol gyda myfyrwyr ymhob canolfan ddarparu (paragraff 1.2.4).
- Mae myfyrwyr yn cyfrannu'n gynyddol yn y broses o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain (paragraff 2.3.4).

Gallwch weld esboniad pellach o'r canfyddiadau allweddol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr sydd ar gael ar wefan ASA, yn esbonio'r broses [Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru](#).⁴

Ynghylch Prifysgol Glyndŵr

Sefydlwyd Prifysgol Glyndŵr yn Wrecsam o Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI), a gafodd ei sefydlu ym 1975 yn dilyn uno Coleg Addysg Cartrefle, Coleg Technegol Sir Ddinbych a Choleg Technoleg Sir y Fflint. Drwy'r colegau hyn, gall Prifysgol Glyndŵr olrhain ei gwreiddiau yn ôl i 1887, pan sefydlwyd Ysgol Wyddoniaeth a Chelf Wrecsam. Yn 2004, daeth NEWI yn aelod llawn o Brifysgol Cymru, ar ôl bod yn goleg cysylltiol ers 1993. Dyfarnwyd pwerau dyfarnu graddau a addysgir a theitl prifysgol yn 2008. Ers Ionawr 2012, cofrestrwyd yr holl fyfyrwyr newydd sy'n astudio ar gyfer dyfarniadau a addysgir ar raglenni sy'n arwain at ddyfarniad Prifysgol Glyndŵr. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cynnig graddau ymchwil Prifysgol Cymru, ac yn bwriadu parhau i wneud hynny nes y bo'n cael ei phwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun.

Sefydlwyd y Brifysgol i gefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol ei rhanbarth, gan barhau'r synnwyr cryf o genhadaeth ranbarthol ei rhagflaenwyr, sy'n cynnwys pwyslais ar gyflogadwyedd y graddedigion a datblygiad cymdeithasol-economaidd y rhanbarth. Mae cenhadaeth Prifysgol Glyndŵr yn nodi ei bod 'yn ymdrechu i fod yn brifysgol sy'n fyfyrwr-ganolog, wedi'i harwain gan y farchnad ac o bwys rhyngwladol sy'n agored i bawb'. Yn ei gweledigaeth mae'n amcanu i fod 'yn anhepgor fel partner arwyddocaol, perthnasol ac arbenigol mewn datblygiad economaidd a chymdeithasol rhanbarthol a chenedlaethol'.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeriad addysgol, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol. Gyda'r Is-Ganghellor mae'r cyfrifoldeb am reoli'r Brifysgol, wedi'i gefnogi gan y Grŵp Gweithredol. Mae gan y Senedd gyfrifoldeb am oruchwylio ansawdd a safonau holl ddarpariaeth academiaidd y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi'i strwythuro o amgylch dau Sefydliad - un ar gyfer y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac un ar gyfer Iechyd, Gwyddorau Meddygol a Chymdeithas - a dwy Ysgol: yr Ysgol Astudiaethau Israddedig a'r Ysgol i Raddedigion. Mae pob un o Sefydliadau'r Brifysgol wedi'i rhannu'n nifer o adrannau academiaidd, pob un wedi'i harwain gan Bennaeth Academiaidd. Mae Deoniaid y Sefydliadau'n gyfrifol am reoli'r Sefydliadau a'u datblygiad strategol; mae'r Ysgolion yn comisiynu rhaglenni gan y Sefydliadau, ac yn goruchwylio gweinyddiaeth a rheolaeth y rhaglen, a chymorth myfyrwyr.

Yn 2011-12, roedd gan y Brifysgol oddeutu 5,246 o fyfyrwyr llawn amser a 4,291 o fyfyrwyr rhan amser - sef cyfanswm o 9,537 (5,698 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn). Roedd 8,120 o fyfyrwyr israddedig a 1,417 o fyfyrwyr ôl-raddedig, yn cynnwys 116 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Cynigir rhaglenni ar draws 10 allan o'r 11 Categori Pwnc Academiaidd gan

⁴ www.gaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx

Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae wyth o Gategorïau Pwnc Academaidd wedi'u cefnogi gan ddarpariaeth isradd hefyd. Mae nifer o raglenni'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â chyflogwyr a chyrrff sector, ac maent wedi'u hachredu'n broffesiynol.

Mae'r Brifysgol yn recriwtio 41 y cant o'i myfyrwyr o Ogledd Ddwyrain Cymru, ac mae'n honni ei bod yn un o brifysgolion blaenllaw Cymru a'r Deyrnas Unedig mewn ehangu cyfranogaeth, gyda 99.7 y cant o fyfyrwyr cartref o ysgolion gwladol a 20.6 y cant o gymdogaethau cyfranogaeth isel. Mae'r Brifysgol yn pwysleisio ei rôl mewn ehangu cyfranogaeth ac yn ymestyn cyfleoedd i fyfyrwyr o gymunedau sydd heb gael mynediad yn draddodiadol at addysg prifysgol, ac mae'n annog ac yn cefnogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau ar lefel ôl-raddedig.

Mae'r Brifysgol yn cyflogi 201 o staff academaidd llawn amser, y mae 26 ohonynt yn athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o benodiadau allanol strategol, yn arbennig mewn perthynas ag arweiniad a gallu i ymchwilio. Ar hyn o bryd, mae gan 43 y cant o staff academaidd raddau ymchwil, ac mae'r Brifysgol yn ymdrechu i gynyddu hyn i 50 y cant erbyn 2013. Mae 53 y cant o staff yn weithgar mewn cyrrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio a chymdeithasau pwnc.

Mae prif gampws y Brifysgol ym Mhlas Coch, Wrecsam, gyda champws ychwanegol yn y dref ar gyfer Ysgol Gelf a Dylunio Gogledd Cymru. Mae hefyd wedi sefydlu Coridor Diwydiant Gwybodaeth, gan weithio mewn partneriaeth â diwydiant a'r sector cyhoeddus i hybu adfywiad economaidd ar draws y rhanbarth. Sefydlwyd cyfleusterau newydd, yn cynnwys canolfan ymchwil technoleg opto-electronig yn Llanelwy, canolfan yn Llanelwyr ar gyfer darpariaeth addysgol sy'n ymwneud â'r tir, a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Cyfansoddau Uwch ym Mrychdyn. Yn 2011, agorwyd dau adeilad newydd o'r radd flaenaf ar brif gampws y Brifysgol yn Wrecsam: Canolfan y Plentyn, y Teulu a'r Gymdeithas; a Chanolfan y Diwydiannau Creadigol.

Yn 2010, aeth y Brifysgol i bartneriaeth â choleg preifat yn Llundain, gan arbenigo mewn darparu rhaglenni addysg uwch yn ymwneud â busnes i fyfyrwyr rhyngwladol. Yn dilyn hynny prynodd y coleg i sefydlu ei safle darparu ei hun yn Llundain fel Prifysgol Glyndŵr Llundain. Erbyn hyn, mae gan Brifysgol Glyndŵr Llundain bron i 1,400 o fyfyrwyr o fwy na 50 o wledydd (oddeutu 15 y cant o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn y Brifysgol), sy'n astudio graddau israddedig mewn Busnes a graddau MBA yn bennaf. Mae'n bwriadu ymestyn recriwtiad myfyrwyr y DU a'r UE o fis Chwefror 2013.

Mae'r Brifysgol wedi'i ymrwymo i bolisïau addysg uwch Llywodraeth Cymru. O dan amodau ei Chynllun Iaith Gymraeg, mae'r Brifysgol yn cynnig pob un o'i gwasanaethau gweinyddol yn ddwyieithog. Mae nifer o gyrsiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hawl gan fyfyrwyr ar unrhyw gwrs i gyflwyno gwaith i'w asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yng ngweithgareddau'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

Darpariaeth gydweithredol

Ar amser yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf, roedd gan y Brifysgol nifer gyfyngedig o bartneriaethau cydweithredol, oll gyda cholegau addysg bellach rhanbarthol. Yn dilyn cyhoeddi cynllun strategol newydd yn 2009, roedd y Brifysgol wedi dechrau ehangu ei hystod o bartneriaethau a'u nifer. Yn unol â'i chenhadaeth i fod 'o bwys rhyngwladol', mae'r Brifysgol hefyd wedi dechrau datblygu partneriaethau dramor. Ar hyn o bryd mae ganddi naw partneriaeth gydweithredol, y mae tair ohonynt dramor.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Glyndŵr

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl.⁵

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau llawnach](#)⁶ ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁷

1 Safonau academiaidd

Canlyniad

Mae'r safonau academiaidd ym Mhrifysgol Glyndŵr **yn cyflawni disgwyliadau'r DU** mewn perthynas â safonau trothwy. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol

1.1 Mae gan Brifysgol Glyndŵr fframwaith dilysu cadarn, sydd wedi'i ddisgrifio'n dda yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu cynigion i'w dilysu'n gofyn i dimau cwrs feincnodi yn erbyn *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen* (FDQB). Mae'r Brifysgol yn defnyddio Fframwaith Cwricwlwm Modiwlaid ar gyfer ei dyfarniadau, sy'n alinio â'r FHEQ a'r FfCChC, ac sy'n diffinio'r gofynion credyd ar gyfer dyfarniadau'r Brifysgol.

1.1.1 Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau alinio yma'n gweithio'n effeithiol. Profir rhaglenni yn erbyn y fframweithiau cenedlaethol priodol wrth ddilysu. Roedd adroddiadau'r digwyddiadau dilysu'n awgrymu'n gyffredinol, ac yn nodi'n aml ac yn eglur, bod yr aliniad wedi'i gadarnhau. Gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar aliniad rhaglenni gyda meincnodau cymwysterau allanol yn eu hadroddiadau blynyddol, ac maent yn gwneud hynny.

1.1.2 Mae'r ddarpariaeth academiaidd a ddarperir mewn partneriaeth ag eraill wedi'i chymeradwyo, ei monitro a'i hadolygu gan ddefnyddio prosesau safonol y Brifysgol. Yn ogystal, ystyrir cymeradwyaeth y ddarpariaeth gydweithredol mewn dau gam. I gychwyn, cymeradwyir y sefydliad partner ac yna mae darpariaeth y rhaglen gan y partner hwnnw'n cael ei dilysu. Cadarnheir aliniad parhaus drwy fonitro blynyddol ac adolygu cyfnodol (paragraffau 1.4 i 1.4.5).

Defnydd o arholwyr allanol

1.2 Mae arholwyr allanol yn darparu sicrwydd yn rheolaidd ac yn gwirio'r safonau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr ar raglenni a addysgir. Penodir arholwyr yn arbenigwyr pwnc ar gyfer modiwlau a rhaglenni a rhai, yn ogystal, fel prif arholwyr allanol. Mae proses wedi'i diffinio'n fanwl ar gyfer penodi arholwyr allanol. Mae arweinwyr rhaglen yn gwneud enwebiadau sy'n cael eu gwirio gan y Gofrestrfa Academiaidd cyn i Gyfarwyddwr Ysgol gadarnhau'r apwyntiad. Canfu'r tîm adolygu bod disgwyl i'r enwebai yn ogystal â'r arweinydd rhaglen sicrhau bod y Brifysgol yn osgoi trefniadau arholi cilyddol, ond mae'r Brifysgol yn

⁵ Ni chyhoeddir y corff llawn o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad; ond mae ar gael os gofynnwch amdano i'w ymchwilio. Cysylltwch â Grŵp Adolygiadau ASA os gwelwch yn dda.

⁶ www.gaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx

⁷ Gwelwch nodyn 4.

bwriadu datblygu ei chronfa ddata fewnol o benodiadau arholi allanol staff y Brifysgol, er mwyn cryfhau ei sicrhad nad yw cilyddiaeth yn digwydd. Mae'n sicr y bydd y Brifysgol eisiau hwyluso'r datblygiad gochelgar yma. Fodd bynnag, clywodd y tîm hefyd am y camau adferol chwim a gymerwyd pan arweiniodd dilyniant gyfaol yr arholwr allanol ei hun at drefniant cilyddol annisgwyl. Mae'r Pwyllgor Academaidd yn cynnal goruchwyliaeth fanwl o benodiad arholwyr allanol, ac mae'n barod i ymyrryd i sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud mewn da bryd. Hysbysir arholwyr allanol am eu rolau a'u cyfrifoldebau drwy lawlyfr, y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a seminar blynyddol i arholwyr allanol.

1.2.1 Mae arholwyr allanol yn cyflwyno eu hadroddiadau blynyddol gan ddefnyddio templed safonol manwl y Brifysgol sy'n cynnwys sylwadau naratif a datganiadau am gydymffurfriad. Canfu'r tîm adolygu bod adroddiadau, yn gyffredinol, yn cadarnhau'n briodol osodiad a chyflawniad safonau academaidd, ansawdd yr adborth i fyfyrwyr, a pha mor addas yw'r cyfryngau asesu. Yn yr ychydig achosion lle gwnaed argymhellion ynglŷn â gwella, cymerwyd camau dilynol: er enghraifft, roedd proses recriwtio wedi'i ohirio dros dro mewn un rhaglen lle gwelwyd pryderon a allai fod yn rhai difrifol, ac mewn achos arall gwaharddwyd un bartneriaeth a'i chwalu'n ddiweddarach.

1.2.2 I bob rhaglen, mae'r Brifysgol yn penodi'r un arholwr allanol i'r holl ganolfannau lle darperir y rhaglen honno. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu nad yw templed yr adroddiad arholwyr allanol na'r Llawlyfr Arholwyr Allanol yn gofyn bod adroddiadau'r arholwyr allanol yn ymddrin â pherfformiad ymhob safle, yn hytrach mae'n gwahodd sylw yn unig ar 'gysondeb ansawdd a safonau yn y sefydliad(au) cydweithredol lle bo'n briodol'. Yn wir, mewn un achos roedd un arholwr allanol yn ei chael hi'n anodd cadw trefn ar y nifer mawr o grwpiau myfyrwyr yn yr amrywiol ganolfannau darparu. Mae'r rheoliadau academaidd yn diffinio'n ofalus pa ddefnyddiau ddylai fod ar gael i arholwyr allanol, ond nid yw'n nodi y dylai arholwyr allanol samplu gwaith o'r holl safleoedd darparu. Er bod y tîm wedi clywed bod samplu o'r fath yn digwydd ar amrywiol safleoedd, dim ond un adroddiad blynyddol a welodd lle rhoddodd yr arholwr sylw'n benodol i asesiad a pherfformiad mewn gwahanol ganolfannau darparu. Mae'r tîm yn **argymell**, er mwyn sicrhau bod yr holl raglenni ymhob canolfan arholi allanol yn cael eu harholi'n eglur o systematig, y dylai rheoliadau ar gyfer arholi allanol nodi bod samplu sgriptiau asesu bob amser yn cynnwys yr holl safleoedd darparu, a dylai adroddiadau arholwyr allanol adlewyrchu'r samplu yma.

1.2.3 Mae'r Gofrestrfa Academaidd a'r timau rhaglenni'n ystyried adroddiadau gan arholwyr allanol. Mae'r arweinydd rhaglen yn anfon ymateb ysgrifenedig at yr arholwr allanol, y mae eu sylwadau'n cael sylw yng nghynllun gweithredu ac adroddiad monitro blynyddol y rhaglen (gwelwch baragraff 1.4.4). Hefyd ystyrir adroddiadau'r arholwyr allanol ym mhroses adolygu cyfnodol y Brifysgol o raglenni. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth bod adroddiadau arholwyr allanol wedi cael sylw: er enghraifft, o ganlyniad i sylwadau am lèn-ladrad gan fyfyrwyr cafwyd archwiliad i gamymddwyn academaidd.

1.2.4 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod adroddiadau arholwyr allanol yn cael eu rhannu gyda myfyrwyr drwy Bwyllgorau Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr (SSCC). Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y Pwyllgorau SSCC a welwyd gan y tîm adolygu'n cyfeirio at yr adroddiadau hyn. Mae'r Brifysgol wedi canfod yn barod, drwy adolygiad mewnol, nad oedd ei gofyniad yn cael ei weithredu'n rheolaidd, a bod yr agenda safonol ar gyfer Pwyllgorau SSCC wedi cael ei addasu'n ddiweddar i adlewyrchu'r gofyniad, gydag arweiniad wedi'i atgyfnerthu i'r staff. Cydnabu'r Brifysgol bod y gwaith diweddar yma'n dal i gael ei gyflwyno'n llawn i bob cwrs ymhob safle darparu o fewn y Brifysgol ac mewn partneriaethau cydweithredol, a nododd y byddai'r gweithdrefnau wedi'u cynnwys yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyffredol. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhannu adroddiadau arholwyr allanol gyda myfyrwyr.

1.2.5 Mae'r Pwyllgor Academaidd yn ystyried adroddiad trosolwg blynyddol sy'n dadansoddi'r holl adroddiadau arholwyr allanol; pennir unrhyw wersi ar lefel sefydliadol a phenderfynir ar gamau gweithredu priodol. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth bod materion yn cael eu codi a'u trin, a bod yr Is-Ganghellor yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am bryderon o'r fath ar lefel y sefydliad. Mae'r adroddiad trosolwg hefyd yn crynhoi penawdau o bob maes astudio, gan nodi meysydd i'w gwella ac arferion da. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod trosolwg o'r broses arholi allanol yn effeithiol.

1.2.6 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod prosesau'r Brifysgol ar gyfer arholi allanol wedi'u halinio'n dda gyda Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) ac yn darparu sail weddol gadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd.

Asesiad a safonau

1.3 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod strategaethau asesu wedi'u hesbonio'n glir mewn dogfennaeth rhaglenni a modiwlau ac yn cael eu profi drwy'r broses ddilysu (paragraff 1.4.3). Canfu'r tîm adolygu bod digwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol yn canolbwyntio'n glir ar faterion asesu, a gofalodd y Brifysgol i gyfiawnhau unrhyw amrywiadau i'r rheoliadau asesu safonol. Rhoddir gwybodaeth drylwyr i aelodau'r panel dilysu am y materion hyn.

1.3.1 Mae llawlyfrau'r brifysgol, y rhaglen a'r modiwl yn esbonio gofynion a rheoliadau asesu, ac yn datgan y dylid dychwelyd gwaith wedi'i farcio i'r myfyrwyr o fewn tair wythnos, gydag adborth gan staff. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y llawlyfrau'n fanwl gywir (gwelwch hefyd baragraff 3.3), a dywedodd bod adborth am asesiad yn gyffredinol ddefnyddiol a chefnogol. Mewn rhai achosion, mae arholwyr allanol wedi argymhell gwelliannau mewn adborth ac mae'r Brifysgol wedi gweithredu'n bendant.

1.3.2 Mae arholwyr allanol yn dweud bod asesiadau'n briodol ac wedi'u marcio'n drwyadl, ac mae gweithdrefnau asesu wedi'u rheoli'n dda yn unol â rheoliadau'r Brifysgol. Mae arholwyr allanol wedi codi pryderon yn achlysurol ac mae'r Brifysgol wedi ymdrin â'r rhain yn gadarn ac mewn da bryd.

1.3.3 Mae Pwyllgor Academaidd y Brifysgol yn cadw llygad effeithiol ar safonau academaidd drwy adroddiadau trosolwg blynyddol, a materion sy'n achosi pryder y mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol wedi ymdrin â nhw mewn da bryd. Mae'r rheoliadau academaidd wedi'u cymeradwyo gan y Senedd. Mae'r rheoliadau ar gyfer camymddwyn academaidd yn rhai trwyadl, ac mae'r prosesau ar gyfer canfod ac ymchwilio llên-ladrad yn gweithio'n effeithiol.

1.3.4 Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth, yng nghofnodion y byrddau asesu ac adroddiadau gan arholwyr allanol, y gellir rhoi hyder yn y defnydd a wneir o reoliadau'r Brifysgol a'r cynnydd a'r penderfyniadau dyfarnu a wneir. Mae'r rheoliadau ar gyfer achredu dysgu blaenorol, yn cynnwys achredu dysgu profiadol blaenorol, wedi'u nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ac yn darparu arweiniad cynhwysfawr i'r prosesau. Dangosodd cofnodion y byrddau asesu bod y prosesau hyn wedi'u gweithredu.

1.3.5 Mae Canolfan Dysgu, Addysgu ac Asesu'r Brifysgol (y Ganolfan) yn cyhoeddi 'Arweiniad i arferion da wrth asesu', sy'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod adolygiad o asesiad drwy'r Brifysgol gyfan yn 2011-12. Mae'n esbonio gofynion y Brifysgol am ail farcio ac am safoni gwaith wedi'i farcio a dulliau asesu mewnol ac allanol. Gweithredir y prosesau hyn yn effeithiol: er enghraifft, cyfeiriodd un arholwr allanol at y ffaith fod safoni mewnol wedi bod yn ddefnyddiol i gywiro graddau a oedd wedi'u chwyddo yn ystod asesiad ar safleoedd darparu niferus.

1.3.6 Yn gyffredin â'r holl brifysgolion yng Nghymru mae Prifysgol Glyndŵr yn caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno unrhyw asesiad yn y Gymraeg, a bydd yn trefnu cyfieithiad priodol i bwrsasau

marcio. Darperir ac asesir un rhaglen yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, ac un arall yn rhannol yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd ni ddarperir ac ni asesir rhaglenni mewn ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg, ond mae'r Pwyllgor Strategaeth Ansawdd a'r Senedd wedi dadlau ac wedi argymhell newid i'r dull yma'n ddiweddar, er mwyn caniatáu i sefydliadau partner ddarparu ac asesu rhaglenni'r Brifysgol mewn ieithoedd eraill. Clywodd y tîm adolygu bod y Bwrdd Llywodraethwyr wedi cytuno â'r Senedd y dylid lansio a gwerthuso cynllun peilot cyn ei weithredu'n ehangach. Roedd yr agwedd ofalus hon yn hollol briodol. Nid yw'r Brifysgol wedi pennu partner addas eto ar gyfer ymgysylltu mewn cynllun peilot o'r fath.

Gosod a chynnal safonau rhaglenni

1.4 Mae gan y Brifysgol broses gadarn ar gyfer dilysu, monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol; maent wedi'u disgrifio'n glir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a chawsent eu hadolygu yn 2010-11. Mae arweiniad i staff ar gael yn eang. Gwneir adolygiad cyfnodol unwaith bob pum mlynedd ac mae'n cynnwys ail-ddilysu. Mae'r Pwyllgor Academaidd yn derbyn adroddiadau trosolwg blynyddol manwl a defnyddiol ar fonitro a dilysu blynyddol, ac felly mae ganddynt dystiolaeth briodol ar gyfer goruchwylio'r prosesau hyn.

1.4.1 Mae'r Ysgol Astudiaethau Israddedig a'r Ysgol i Raddedigion yn goruchwylio ac yn rheoli'r holl raglenni astudio israddedig ac ôl-raddedig a addysgir. Maent yn comisiynu rhaglenni newydd gan y Sefydliadau academaidd, ac yn cau eraill, fel y bo'n ofynnol. Gwneir y penderfyniadau comisiynu mewn modd hollol agored gan Banel Comisiynu sy'n cynnwys cyfarwyddwyr yr ysgolion, deoniaid y sefydliadau a staff uwch eraill y Brifysgol. Cânt eu cefnogi gan gynlluniau strategol adrannol a'u hysbysu gan gyfres fanwl o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y Brifysgol gyfan (DPA; paragraff 2.4.1). Disgwylir i dimau rhaglenni ddefnyddio arbenigedd diwydiannol neu broffesiynol allanol i ddatblygu eu cynigion.

1.4.2 Mae'n rhaid i'r holl raglenni a addysgir ffitio o fewn fframwaith modiwlaid y Brifysgol, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys elfennau o fentergarwch, cynaliadwyedd, cyflogadwyedd ac ymchwil. Mae'r fframwaith modiwlaid yn alinio gyda *Phennod A1: Y lefel genedlaethol* yn y Cod Ansawdd, ond mae'n rhaid i bob cwricwlwm alinio hefyd gydag unrhyw safonau perthnasol yn y sector neu gyda gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB) (paragraff 1.5.1).

1.4.3 Mae panelau adolygu cyfnodol a dilysu'n cynnwys staff academaidd profiadol y Brifysgol a dau o gymheiriaid allanol annibynnol. Mae panelau adolygu'n cwrdd â chyn-fyfrwyr a myfyrwyr presennol. Mae'n ofynnol fod panelau'n eu bodloni eu hunain bod y corff o wybodaeth a sgiliau a ddatblygwyd o fewn y cwricwlwm arfaethedig yn adlewyrchu ysgolheictod cyfredol a disgwyliaid'r proffesiwn neu ddisgyblaeth academaidd. Rhoddir gofal arbennig i unrhyw ddysgu seiliedig ar waith sy'n fewnblanedig, ac i elfennau'r cwricwlwm y gellid eu darparu drwy ddysgu o bell neu e-ddysgu (paragraffau 2.12.1 i 2.12.2) Canfu'r tîm adolygu fod panelau'n craffu ar gynigion rhaglenni'n ofalus ac yn darparu cyfiawnhad trwyadl o unrhyw argymhellion ac amodau cymeradwyo.

1.4.4 Mae arweinwyr rhaglenni'n ysgrifennu adroddiadau monitro blynyddol gan ddefnyddio amrediad eang o dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau arholwyr allanol (paragraffau 1.2.1 i 1.2.3), ystadegau rhaglen (paragraffau 2.4.1 i 2.4.2) ac adborth gan fyfrwyr (paragraff 2.3). Ystyrir adroddiadau monitro blynyddol ar lefel adrannol gan fyrddau monitro blynyddol y pwnc, ac yn ddiweddarach gan Is-Bwyllgor Rhaglenni Academaidd y Pwyllgor Academaidd. Mae un adroddiad annibynnol yn cadarnhau i'r Is-Bwyllgor Rhaglenni Academaidd bod camau wedi'u cymryd i ymdrin ag unrhyw faterion a godwyd neu i ledaenu arfer da. Canfu'r tîm adolygu, er gwaethaf data anghyflawn mewn un adroddiad, bod y broses yn gyffredinol drwyadl ac effeithiol. Gallai'r tîm olrhain pryder cynyddol am adnoddau ffisegol mewn peirianeg dros ddwy flynedd, a chlywodd sut roedd hyn wedi hysbysu penderfyniad diweddar i ddyrannu cyllido ychwanegol yn y maes yma (gwelwch hefyd baragraff 2.2.2). Roedd tystiolaeth hefyd mewn

adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau dilysu am bryderon ynglŷn â lefelau staffio mewn nifer o feysydd, ond ni allai'r tîm ganfod ymateb y Brifysgol. Mae'n sicr y bydd y Brifysgol eisiau sicrhau bod adroddiadau monitro blynyddol yn cynnwys data am gyflawniad myfyrwyr yn rheolaidd yn y dyfodol a bod blaenoriaethau o ran adnoddau wedi'u cyfathrebu i dimau rhaglenni.

1.4.5 Mae'r gweithdrefnau manwl ar gyfer addasu rhaglenni neu fodiwlau wedi'u disgrifio'n llawn yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Y Grŵp Comisiynu sy'n gwneud y penderfyniadau i gau neu ohirio recriwtio i raglenni, ac mae'n rhaid gwneud trefniadau i alluogi'r myfyrwyr sy'n weddill i gwblhau eu hastudiaethau mewn amgylchedd dysgu priodol. Mae buddiannau'r myfyrwyr ar raglenni eraill sy'n rhannu modiwlau sy'n cau wedi'u hamddiffyn hefyd.

Meincnodau pwnc

1.5 Mae gofyniad penodol i banelau dilysu (paragraff 1.4.3) archwilio aliniadau rhaglenni â datganiadau meincnod pwnc. Mae manylebau rhaglen a thempledi cyflwyno dilysiad yn gofyn bod timau rhaglenni'n mapio'r aliniadau hyn, a chanfu'r tîm adolygu bod hyn wedi'i wneud yn effeithiol.

1.5.1 Mae llawer o raglenni'r Brifysgol wedi'u hachredu neu eu cydnabod gan gyrff PSRB, y mae mwy na 30 ohonynt yn cyfranogi yn y ffordd yma. Mae'r broses ddilysu (paragraffau 1.4.1 i 1.4.3) yn gofyn bod timau rhaglenni'n meincnodi'r cwricwlwm yn erbyn unrhyw safonau sgiliau sector neu gyrff PSRB priodol. Pan fo cynigion rhaglenni'n cynnwys achredu proffesiynol, disgwylir i o leiaf un o'r aelodau allanol ar y panel adolygu cyfnodol neu ddilysu fod â gwybodaeth a phrofiad o'r corff PSRB sy'n achredu. Mewn rhai achosion, cynhelir cyd-ddigwyddiadau dilysu ac achredu gan gorff/gyrff PSRB gydag aelodau panel y cytunwyd arnynt ar y cyd. Lle bwriedir i ddysgu yn y gweithle gael ei fewnosod yn y rhaglen, bydd y panel yn gwirio bod trefniadau lleoliad yn cwrdd â chanllawiau neu ofynion y corff PSRB perthnasol. Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau hyn yn cadarnhau aliniadau'n effeithiol gyda gofynion priodol y corff PSRB. Lle mae gofynion y corff proffesiynol yn awgrymu na all cynnig gydymffurfio'n llawn â'r Fframwaith Cwricwlwm Modiwlaidd (paragraff 1.1), efallai y cadarnheir cais am eithrio wrth ddilysu.

1.5.2 Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi ei pherthynas gyda chyrrff PSRB ac yn cadw cofrestr ar-lein o'i darpariaeth a gydnabyddir yn broffesiynol. Mae gan yr Is-Bwyllgor Rhaglenni Academiaidd gyfrifoldeb arbennig am gymeradwyo cyflwyniadau i gyrff PSRB, ac mae'n derbyn yr holl adroddiadau o weithgareddau achredu, gan sicrhau bod amodau, argymhellion a chanlyniadau'n derbyn ymateb priodol. Cyfeirir y cynigion ynglŷn â gwneud addasiadau i raglenni gydag achrediad proffesiynol at y Pwyllgor Academiaidd bob amser i dderbyn cymeradwyaeth. Mae'r adolygwyr yn credu bod yr oruchwyliaeth sefydliadol yma ar yr ymgysylltiad gyda chyrrff PSRB yn darparu cyfleoedd i wella ar draws y sefydliad.

2 Ansawdd cyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Glyndŵr yn cyflawni disgwyliadau'r DU. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu

2.1 Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl staff academiaidd sydd newydd eu penodi feddu ar gymhwyster addysgu cydnabyddedig neu fod yn y broses o gyflawni un. Darperir rhaglen gynefino, mentoriaeth a chyfnod prawf o 12 mis i staff academiaidd newydd. Mae gofyn i'r rheiny sydd heb lawer o brofiad addysgu blaenorol, neu sydd heb brofiad o gwbl, gyflawni

rhaglen Dysgu Myfyrwyr a Gynorthwyr neu Dystysgrif Uwchraddedig mewn Datblygiad Proffesiynol y Brifysgol yn llwyddiannus. Mae'r cyn-dystysgrif yn arwain at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (AAU); mae mwy na 60 y cant o'r staff yn aelodau o'r AAU. Mae polisi'n bodoli i gysylltu cymwysterau addysgu â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU, ac mae hyn yn cynnwys staff addysgu sesiynol.

2.1.1 Un o flaenoriaethau'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu a'r Strategaeth Datblygiad Staff yw datblygu safonau proffesiynol ac effeithioldeb mewn addysgu. Pennir anghenion datblygiad y staff mewn arfarniad blynyddol. Mae'r Ganolfan Dysgu, Addysgu ac Asesu'n cydlynu'r rhaglen datblygiad staff academiaidd, sy'n cynnwys mentora a chefnogaeth i geisiadau cymrodoriaeth yr AAU a hyfforddiant ag iddo strwythur. Mae hefyd yn cefnogi ymyriadau unigol o fewn rhaglenni ac yn gweithio ar wella ymarferion. Mae'r Ganolfan wedi cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad pedagogaid ac mae'n disgwyl gwneud rhagor. Cynigiodd y Brifysgol sicrwydd bod gan y Ganolfan adnoddau digonol ar gyfer ei gweithgareddau cyfredol, a chynigiodd gyd-leoliad â swyddogaethau cefnogi eraill yn rhan o'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

2.1.2 Disgwylir i'r holl staff academiaidd newydd feddu ar gymwysterau doethuriaeth a/neu brofiad proffesiynol priodol; gallai staff presennol sy'n mynegi diddordeb dderbyn cefnogaeth i ennill PhD neu ddoethuriaethau proffesiynol. Mae gan bedwar deg tri y cant o'r staff gymwysterau doethuriaeth erbyn hyn. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn pennu esiamplau o addysgu wedi'i hysbysu gan waith ymchwil. Mae'r Brifysgol mewn sefyllfa dda i ddatblygu hyn ymhellach, ac mae ei phartneriaid cydweithredol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil ac ysgoloriaeth.

2.1.3 Mae'r Brifysgol yn goruchwyllo penodiadau a wnaed yn ei sefydliadau partner drwy i ddeon perthnasol gymeradwyo curricula vitae. Adolygir cymwysterau academiaidd a phrofiad proffesiynol staff drwy brosesau adolygu cyfnodol a chymeradwyo rhaglenni.

Adnoddau dysgu

2.2 Mae'r Cynllun Strategol yn sefydlu'r nod penodol o uwchraddio safon gyffredinol yr adeiladau addysgu i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion y myfyrwyr ar raglenni ehangu cyfranogaeth. Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n blaenoriaethu technolegau dysgu arloesol, gan gynnwys defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu ac e-ddysgu, i gefnogi dysgu i gorff myfyrwyr amrywiol. Mae'r opsiynau buddsoddi wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Llyfrgell. Ar sail y bwriadau hyn a chanlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC), mae'r Brifysgol wedi gwneud buddsoddiad diweddar yn ei hadnoddau dysgu, gan gynnwys cyfleusterau llyfrgell a TG, lle mae myfyrwyr wedi cael dylanwad mawr drwy'r AMC a Chyngor y Myfyrwyr, yn arbennig ar y safle yn Wrecsam. Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi hyn, ond maent oll yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith. Mae dosbarthiad strategol adnoddau dysgu wedi'i oruchwyllo gan y Grŵp Gweithredol, gyda chyfrifoldebau uniongyrchol wedi'u neilltuo i ddirprwy is-gangellorion perthnasol. Mewn rhai meysydd, mae'r broses o ddarparu adnoddau dysgu wedi'i feincnodi yn erbyn y sector. Mae adnoddau staffio wedi'u rheoli gan benaethiaid yr adrannau. Mae deialog strategol blynyddol defnyddiol a chynhwysol, wedi'i gefnogi gan ddatganiad cynllunio pwnc, rhwng cyfarwyddwyr yr ysgolion, yr Adran Gyllid, penaeithiaid yr adrannau ('penaeithiaid academiaidd') a'r Deon perthnasol; mae'n ystyried dosraniad adnoddau, a gallai bidiau am adnoddau dysgu godi o'r cyfarfodydd hyn.

2.2.1 Pennwyd esiamplau o adnoddau gwahaniaethol a chefnogaeth myfyrwyr ar gyfer dysgu rhwng y safleoedd yn Wrecsam ac ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain. Nododd y tîm adolygu'n arbennig y ddarpariaeth llyfrgell gyfyngedig ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain a'r ddibyniaeth eang o'r herwydd ar gyfleusterau llyfrgell allanol ac e-adnoddau. Nid yw cynllun integreiddio Prifysgol Glyndŵr Llundain yn gwneud cyfeiriad strategol at adnoddau dysgu. Er bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r adnoddau ffisegol ym Mhrifysgol Glyndŵr

Llundain, mae angen gwneud hyn yng nghyd-destun cynllun strategol, yn arbennig o ystyried bwriad y Brifysgol i ehangu darpariaeth i safleoedd eraill yn Llundain. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Brifysgol yn sefydlu a gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella'r adnoddau dysgu a'r gefnogaeth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain.

2.2.2 Mae'r gwaith o sicrhau adnoddau i ddarpariaeth newydd, gan gynnwys y rhaglenni presennol a ddarperir mewn safle newydd, wedi'i gomisiynu gan Ysgolion ac yn derbyn ystyriaeth strategol gychwynnol gan y Grŵp Gweithredol, ac mae unrhyw angen am adnoddau ychwanegol wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Os caiff ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol, mae'r ddarpariaeth yn symud ymlaen at ddilysiad, lle ystyrir adnoddau dysgu ymhellach ac yn amodol ar graffu allanol. Mae angen sicrhau adnoddau dysgu priodol mewn ffordd debyg cyn cymeradwyo darpariaeth partneriaeth newydd, wedi'i harchwilio mewn mwy o fanylder wrth ddilysu rhaglen. Mae adnoddau dysgu, ar gyfer rhaglenni partneriaeth a rhai wedi'u seilio ar y campws, yn cael eu monitro drwy'r broses o fonitro ac adolygu'n flynyddol. Er bod y broses yma'n gweithio'n dda fel arfer ac yn pennu gwendidau'r adnoddau dysgu, nid yw gweithredu'n digwydd ar unwaith bob amser ac mae, o bryd i'w gilydd, wedi gofyn sylw allanol a deiseb gan y myfyrwyr cyn i'r Brifysgol gyflwyno rhaglen o welliant a buddsoddiad. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod problemau adnoddau dysgu yr adroddir amdanynt drwy'r broses fonitro flynyddol yn derbyn sylw'n effeithiol ac mewn da bryd.

2.2.3 Mae'r Brifysgol wedi atgyfnerthu ei hymdrech mewn perthynas â'i hadnoddau dysgu electronig, gan ehangu ei darpariaeth wi-fi a chyflwyno fersiwn newydd o'i rhith-amgylchedd dysgu. Er bod rhai datblygiadau i'w gwneud o hyd o ran ehangder y sylw ar y rhyngwyd a pherfformiad y rhith-amgylchedd dysgu, mae cynllun benthyg gliniadur rhad ac am ddim wedi'i gyflwyno i sicrhau'r mynediad ehangaf i fyfyrwyr i'r technolegau dysgu sydd ar gael. Mae'r lefelau isaf o wybodaeth wedi'u diffinio i sicrhau adnodd ar-lein effeithiol i fyfyrwyr; darperir gwelliant gan grŵp Hyrwyddwyr Dysgu gyda Chymorth Technoleg. Mae cefnogaeth sylweddol ar gael i staff gyda defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu, a darperir hyfforddiant gan y Ganolfan Dysgu, Addysgu ac Asesu a Hyrwyddwyr Dysgu gyda Chymorth Technoleg. Cyflwynwyd Tystysgrif Uwchraddedig mewn E-ddysgu yn 2009, gydag ymgysylltiad da â staff.

Llais y myfyrwyr

2.3 Derbynnir adborth gan fyfyrwyr drwy nifer o fecanweithiau: cynrychiolwyr cwrs sy'n fyfyrwyr, Cyngor y Myfyrwyr, Pwyllgorau Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr (SSCC), holiadur Gwerthuso Modiwlau gan Fyfyrwyr, yr AMC, ac Arolwg Myfyrwyr Glyndŵr. Cymerir yr adborth hwn drwy'r strwythur pwyllgorau drwy gyfrwng y broses o fonitro ac adolygu'n flynyddol, ynghyd â chynllun gweithredu. Cyflwynir yr ymatebion yn yr AMC i fyfyrwyr y flwyddyn wedyn ar ffurf 'dywedaist ti / gwnaethom ni', gan ddefnyddio poster sydd wedi'u harddangos mewn manau amlwg ar y campws. Dywedodd y myfyrwyr bod y Brifysgol wedi ymateb yn effeithiol i ychydig o bryderon a godwyd, gan gynnwys cwestiynau am wario arian a glustnodwyd ar gyfer y ddarpariaeth llyfrgell. Roedd rhai myfyrwyr yn teimlo nad oedd y broses o werthuso modiwlau'n arwain at newidiadau yn y modiwlau. Fodd bynnag, roedd y Brifysgol wedi cymryd adborth gan fyfyrwyr i ystyriaeth wrth benderfynu gwneud gwelliannau sylweddol i rai adnoddau labordy.

2.3.1 Am fod yr AMC yn ymwneud â myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn derfynol yn unig, sefydlodd y Brifysgol Arolwg Myfyrwyr Glyndŵr i gasglu adborth gan fyfyrwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn hefyd. Ystyrir canlyniadau'r arolwg hwn ynghyd â chanlyniadau'r AMC ym mhwyllgorau'r Brifysgol.

2.3.2 Mae myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar holl bwyllgorau Senedd y Brifysgol, lle maent wedi'u hintegreiddio'n gynyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhai cysylltiadau rhwng rheolwyr sefydliadol uwch a chyrrff cynrychioli'r myfyrwyr: er enghraifft, mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt (Profiad y Myfyrwyr) yn mynd i gyfarfodydd Cyngor y Myfyrwyr weithiau. Yn ogystal, mae Llywydd Urdd y Myfyrwyr a myfyriwr arall yn aelodau o'r Senedd ac o'r Bwrdd Llywodraethu,

ac yn ddiweddar gwnaed Llywydd Urdd y Myfyrwyr yn aelod o'r Grŵp Gweithredol hefyd. Clywodd y tîm adolygu bod yr adborth gan y Llywydd wedi dylanwadu ar benderfyniad diweddar na fyddai myfyrwyr dan anfantais am eu bod wedi mynd ar wrthdystiad cenedlaethol gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Roedd y Llywydd wedi ymwneud yn agos â rhai o'r penderfyniadau sefydliadol strategol, megis prynu stadiwm pêl-droed.

2.3.3 Darperir hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr ar gampws Wrecsam gan Urdd y Myfyrwyr, Tîm Profiad y Myfyrwyr a'r Tîm Ansawdd Academaidd. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod yr hyfforddiant hwn wedi gwella'n fawr erbyn hyn. Mae sesiynau hyfforddi byw rheolaidd, a safle rhith-amgylchedd dysgu penodol i gynrychiolwyr myfyrwyr, yn ogystal â Llawlyfr Cynrychiolwyr Myfyrwyr. Ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, y Rheolwr Ansawdd sy'n hyfforddi'r cynrychiolwyr myfyrwyr ac maent hefyd yn cael ymweliadau gan y Deon Cyswllt (Profiad y Myfyrwyr), yn ogystal ag ymweliadau gan aelodau Urdd y Myfyrwyr yn Wrecsam. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain yn cael gweld yr un adnoddau digidol a'r un adnoddau wedi'u printio â chynrychiolwyr yn Wrecsam.

2.3.4 Hyd yn ddiweddar, roedd myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain wedi'u hintegreiddio llai ym mecanweithiau llais y myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr yn Wrecsam. Yn ddiweddar maent wedi ffurfio Cymdeithas Myfyrwyr, wedi'i meithrin gan Urdd y Myfyrwyr yn Wrecsam. Erbyn hyn mae ganddynt Bwyllgorau SSCC, gyda rhywfaint o hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr sydd wedi'i ddarparu gan y Rheolwr Ansawdd ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, gydag ymweliadau gan y Deon Cyswllt (Profiad y Myfyrwyr) ac aelodau Urdd y Myfyrwyr yn Wrecsam. Mae'r hyfforddiant hwn yn defnyddio Llawlyfr Cynrychiolwyr Myfyrwyr a'r un adnoddau digidol â myfyrwyr yn Wrecsam. Yn unol â chyflwyniad y myfyrwyr, fodd bynnag, 'mae lle i wella o hyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain; mae cynrychiolaeth y myfyrwyr wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, ond, mae angen darparu ar gyfer anghenion hyfforddi cynrychiolwyr yn rheolaidd'. Dywedodd myfyrwyr o Brifysgol Glyndŵr Llundain bod y Brifysgol wedi ymateb i rai pryderon a godwyd. Un o'r rhai nodedig oedd gwella'r ddarpariaeth llyfrgell a darparu ystafell gyffredin. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** cyfranogaeth gynyddol myfyrwyr yn y broses o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain.

2.3.5 Trafodir ymgysylltiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gyda rheolaeth ar ansawdd ym mharagraff 2.10.10.

Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau

2.4 Mae'r Brifysgol yn cadw ystod gynhwysfawr a soffistigedig o wybodaeth rheoli sydd wedi'i chynhyrchu'n ganolog i gefnogi cynllunio strategol ac i wneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae'r data yma wedi'i gynhyrchu o ffynonellau mewnol ac allanol a chaiff ei feincnodi neu ei normaleiddio i sefydlu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) gwerthusol sy'n cael eu gweithredu'n eglur ac yn hygyrch ar-lein gan y staff i gyd. Mae Swyddog Cynllunio wedi'i benodi i roi cyngor i'r timau rhaglenni ar ddechongli'r data.

2.4.1 Er mai dim ond ers mis Mawrth 2010 y maent wedi'u defnyddio, mae defnyddio'r DPA yn rhan annatod o broses gomisiynu'r Brifysgol erbyn hyn ac yn y gwaith o werthuso'r meysydd astudio, gan gynnwys y rheiny a ddarperir gyda phartneriaid cydweithredol. Mae DPA wedi'u monitro'n cynnwys: mesuriadau o foddhad y myfyrwyr; cofrestriad, cynnydd a chyflawniad myfyrwyr; ehangu mynediad; cyfraddau cyflogadwyedd; y gymhareb staff i fyfyrwyr; cyfraddau sicrhau ansawdd a pherfformiad ariannol. Mae'r Ysgol i Raddedigion wedi defnyddio cyfraddau cwblhau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i arwain gwelliannau yn sgiliau'r myfyrwyr a hyfforddiant goruchwylwyr. Ar lefel israddedig, defnyddiwyd DPA i gyfarwyddo newidiadau mewn rhaglenni neu ddod â gweithgareddau i ben. Mae'r Dangosfwrdd DPA yn darparu gwybodaeth rheoli gyffredol a hanesyddol sy'n hygyrch i'r staff ar bob lefel, y gellir ei defnyddio hefyd i hybu gwelliant; mae hyn yn **nodwedd o arfer da**.

2.4.2 Mae'r broses o fonitro ac adolygu rhaglenni'n flynyddol yn defnyddio gwybodaeth sy'n cynnwys adborth manwl gan fyfyrwyr (AMC, Arolwg Myfyrwyr Glyndŵr), adroddiadau arholwyr allanol, canlyniadau gan gyrff PSRB, ac adborth gan gyflogwyr. Yn ogystal, mae DPA yn cael eu hadeiladu i mewn i'r broses i hysbysu gwaith adlewyrchu a chynlluniau gweithredu.

Mae'r Pwyllgor Academaidd yn derbyn yr adroddiadau hyn, ynghyd â gwybodaeth ganolog ar gamymddwyn academaidd, apeliadau a chwynion, ac achosion disgyblaethol, yn rhan o oruchwyliaeth sefydliadol.

2.4.3 Mae'r Brifysgol yn casglu data am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ei ddefnyddio mewn prosesau monitro. Mae darpariaeth ganolog effeithiol yn bodoli i benderfynu beth yw anghenion dysgu myfyrwyr anabl, ond weithiau efallai nad yw hyn yn cael ei gydnabod ar lefel rhaglen neu adran. Ym mis Medi 2012, cafodd y system cofnodion myfyrwyr ei gwella er mwyn gallu olrhain y myfyrwyr yn well i fonitro'r gefnogaeth a dderbyniant.

Mynediad i'r Brifysgol

2.5 Adolygir gofynion mynediad cyffredinol bob blwyddyn a phenderfynir beth yw'r gofynion mynediad penodol i raglenni ar amser dilysu. Mae gan y Brifysgol broses fynediadau ganolog, wedi'i llywio gan ei Pholisi Derbyn, i sicrhau cysondeb a thegwch. Mae'r Pwyllgor Academaidd yn gwneud adolygiad blynyddol o fynediadau.

2.5.1 Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno diwrnodau agored rithwir a thaith rithwir i gefnogi'r broses gais. Mae darpar fyfyrwyr, yn enwedig y rheiny sydd ag anghenion penodol, yn gwerthfawrogi ymweliadau cyn mynediad yn fawr iawn. I recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, mae'r Brifysgol yn defnyddio asiantiaid i ddarparu gwybodaeth a chynngor penodol i fyfyrwyr; cymeradwyir yr asiantiaid yma gan ddefnyddio meini prawf safonol a chânt eu cadw dan adolygiad. Mae gwefan i fyfyrwyr rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth iddynt i'w helpu i baratoi ar gyfer cyrraedd, a rhoddir cyfarwyddiadau penodol a sesiynau ymgyfarwyddo adeg cofrestru (gwelwch hefyd baragraffau 2.9.1 i 2.9.3).

2.5.2 Gwneir penderfyniadau am fynediad yn lleol mewn rhai sefydliadau partner; ond, mae'n rhaid iddynt ddilyn gofynion mynediad y Brifysgol, a chyfeirir cynigion at y Brifysgol i'w cadarnhau. Yn gyffredinol, mae gan y partneriaid ddealltwriaeth dda o'r broses hon.

Cwynion ac apeliadau

2.6 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu gweithdrefnau mewnol ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr, y mae eu manylion ar gael ar-lein. I fyfyrwyr ymchwil, Prifysgol Cymru sy'n penderfynu beth yw'r gweithdrefnau hyn. Darperir gwybodaeth i fyfyrwyr hefyd yn ystod y cyfnod cynefino, drwy lawlyfrau rhaglen ac yn y Canllaw i Fyfyrwyr. Mae cefnogaeth a chynngor annibynnol ar gael yn awr gan y Cynghorydd Myfyrwyr drwy Urdd y Myfyrwyr, ond nid yw hyn yn ymestyn i Brifysgol Glyndŵr Llundain. Roedd ymwybyddiaeth y myfyrwyr o'r gweithdrefnau hyn yn anghyflawn, yn rhannol am nad oedd pawb yn meddwl eu fod yn uniongyrchol berthnasol iddyn nhw. Ystyrir cwynion gan fyfyrwyr mewn sefydliadau partner i gychwyn o dan y gweithdrefnau lleol i ganiatáu ar gyfer ymchwiliad a gweithredu mwy effeithiol, ond mae hawl i fyfyrwyr ddefnyddio gweithdrefn y Brifysgol os byddai'n well ganddynt neu os na sicrhair ateb yn lleol. Ystyrir yr holl apeliadau o dan weithdrefn y Brifysgol er mwyn sicrhau cysondeb. Mae hawl i fyfyrwyr gyflwyno eu pryderon i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol pan fo gweithdrefnau'r Brifysgol wedi'u defnyddio i gyd; dewisodd saith wneud hynny yn y flwyddyn academaidd 2011-12 ac ni chynhaliwyd yr un ohonynt. Dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer y cwynion a'r apeliadau wedi codi yn y Brifysgol o 50 y cant a 44 y cant yn y drefn honno, gan ddilyn patrwm y sector.

2.6.1 Mae'r drefn gwyno'n cynnwys cam cychwynol sydd â'r nod o ganfod ateb anffurfiol lle bo'n bosibl, ond roedd tystiolaeth gan fyfyrwyr yn awgrymu na thalwyd digon o sylw efallai

i'r cam hwn o'r broses yn y gorffennol. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr gan Urdd y Myfyrwyr wedi'i gynnwys ar bob panel apeliadau a chwynion, ac mae aelod panel allanol wedi'i gysylltu ag apeliadau; mae aelod o'r Gofrestrfa Academaidd yn bresennol i sicrhau cyngor cyson. Os cynhelir yr apêl neu'r gŵyn, bydd cadeirydd y panel yn argymhell cam gweithredu i'r Brifysgol neu i adran ac mae'n gyfrifol am sicrhau y cymerir camau gweithredu adferol. Mae'r Pwyllgor Academaidd yn derbyn adroddiadau ar gwynion ac apeliadau, ac mae cwynion a gynhelir yn rhan o fesuriadau DPA y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen rhagor o hyfforddiant i aelodau'r panel.

Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd

2.7 Mae Canolfan Yrfaeodded yn Wrecsam sydd ag adnoddau da, ac ystod eang o gyfleusterau a gweithgareddau, yn cynnwys cefnogaeth un i un. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod wedi derbyn ystod eang o wybodaeth yrfaol. Mae rhaglen 'Gweithwyr Dros Dro Glyndŵr' yn caniatáu i rai myfyrwyr brofi gwaith dros dro yn rhan amser ar y campws. Mae rhaglen profiad gwaith tymor byr 'GO Wales' hefyd.

2.7.1 Mae lleoliadau gwaith ar gael ar rai rhaglenni (er enghraifft, Nyrsio ac Addysg). Roedd y myfyrwyr yn fodlon i raddau mawr gyda'r ddarpariaeth lleoliadau, heblaw am achos lle methwyd â darparu lleoliad a addawyd ac y cynigiwyd yr opsiwn arall - treulio amser mewn gweithdy yn y Brifysgol - barnwyd bod hyn yn anfoddhaol.

2.7.2 Nid oes canolfan yrfaeodded ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain. Mae myfyrwyr yno'n gallu cyrraedd yr un adnoddau ar-lein â myfyrwyr yn Wrecsam, gyda rhywfaint o gefnogaeth wedi'i darparu ar yr e-bost a'r ffôn. Mae ychydig o swyddi gwag wedi'u hysbysebu ar dudalen 'Jobshop' ar wefan Prifysgol Glyndŵr Llundain. Mae cyfle cyfyngedig i gael cefnogaeth wyneb yn wyneb, mae un o'r cynghorwyr gyrfaoled yn ymweld â Phrifysgol Glyndŵr Llundain o leiaf unwaith bob tymor. Derbyniwyd y sylw bod y Brifysgol yn ceisio symud at lai o gefnogaeth un-i-un yn gyffredinol, yn unol â pholisi o ddefnyddio adnoddau ar-lein. Tynnodd myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain sylw at y prinder darpariaeth yrfaol ar y safle. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn sefydlu ac yn gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella adnoddau dysgu a chefnogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, gan ystyried y materion cefnogi myfyrwyr yma (gwelwch hefyd baragraffau 2.2.1 a 2.8.2).

Cefnogi myfyrwyr anabl

2.8 Mae gan y Brifysgol gyfran gweddol uchel o fyfyrwyr anabl, ac mae wedi datblygu mesurau i hwyluso eu dysgu. Mae ganddi Ganolfan Asesu Anabledd gyda Thîm Cefnogi Anabledd a Dysgu, ac hefyd Ganolfan Irlen ar gyfer myfyrwyr sydd â Syndrom Irlen. Mae'r Brifysgol wedi datblygu llawer o brofiad mewn helpu myfyrwyr i hawlio Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae gan y Ganolfan Asesu Anabledd ystod eang iawn o offer cyfrifiadurol a dyfeisiau eraill, ynghyd â meddalwedd, dodrefn ergonomig a chymhorthion i ddal y corff yn gywir. Defnyddir yr offer yma i helpu myfyriwr anabl i werthuso'r dechnoleg gynorthwyol briodol i gwrdd ag anghenion y myfyriwr hwnnw, ac mae'r cyngor a roddir yn annibynnol ar werthwr.

2.8.1 Cafwyd sylwadau gan fyfyrwyr anabl eu bod yn derbyn lefel uchel o gymorth gyda'u hanghenion ac roeddent yn hapus gyda'r cyfleusterau a ddarperir. Dim ond ar ôl dod i'r Brifysgol y mae rhai ohonynt wedi canfod bod dyslecsia arnynt. Rhoddodd cyflwyniad y myfyrwyr, a'r myfyrwyr a gyfarfu'r tîm arolygu, hanesion positif iawn am eu cymorth i fyfyrwyr anabl. Mae'r gefnogaeth gynhwysfawr y mae'r Brifysgol yn ei darparu i fyfyrwyr anabl ar gampws Wrecsam yn **nodwedd o arfer da**.

2.8.2 Nid oes gwasanaeth cefnogi i'r anabl ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, ond dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y myfyrwyr yn cael defnyddio'r cyfleusterau yn Wrecsam. Dim ond o

bell y gellir darparu gwasanaethau asesu a chefnogi. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sefydlu ac yn gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella adnoddau dysgu a chefnogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, gan ystyried y materion cefnogi myfyrwyr yma (gwelwch hefyd baragraffau 2.2.1 a 2.7.2).

Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol

2.9 Mae gan y Brifysgol gyfran uchel o fyfyrwyr rhyngwladol, y mae nifer ohonynt yn astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, ac mae eu nifer wedi tyfu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Swyddfa Ryngwladol, gyda Thîm Derbyniadau Rhyngwladol unswydd a ganmolwyd gan fyfyrwyr.

2.9.1 Mae safon ofynnol y mae'n rhaid ei chyrraedd mewn Saesneg cyn mynediad. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn darparu cyrsiau iaith Saesneg (megis cwrs tri mis cyn y radd mistr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain) i helpu myfyrwyr i gyrraedd y safon. Defnyddir prawf iaith a weinyddir yn lleol i asesu anghenion y myfyrwyr am gymorth gyda'r Saesneg.

2.9.2 Anfonir y 'Canllaw Cyn Cyrraedd i Fyfyrwyr Rhyngwladol' at yr holl fyfyrwyr rhyngwladol newydd, ac mae'n cynnwys gwybodaeth ymarferol gynhwysfawr. Cynhyrchir 'Canllaw Croeso' bob blwyddyn gan y Tîm Lles Rhyngwladol, gyda chynghor a manylion cysylltu ar gyfer amrywiol ffynonellau cefnogaeth.

2.9.3 Soniodd myfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol yn Wrecsam am esiamplau o gefnogaeth ddefnyddiol, yn cynnwys argymhellion am lyfrau gan oruchwylwyr, cwrs ar ysgrifennu academiaidd a chwrs pedair wythnos yn y Saesneg. Bu'r myfyrwyr hefyd yn canmol y Tîm Lles Rhyngwladol, a'r gwarantiaid y bydd lle i fyfyrwyr rhyngwladol Wrecsam yn llety'r Brifysgol. Fodd bynnag, nodwyd rhai problemau ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, megis prinder llety i fyfyrwyr yn Llundain.

Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

2.10 Mae Prifysgol Glyndŵr wedi gohirio ei chais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil, wrth aros am ganlyniadau'r Adolygiad Sefydliadol hwn. Mae gan y Brifysgol brofiad sylweddol o oruchwylio myfyrwyr ymchwil a rheoli eu harholiadau a'u dyfarniadau. Mae Prifysgol Cymru wedi adolygu a chymeradwyo'r cyfrifoldebau hyn ar nifer o achlysuron. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoli ei graddau ymchwil ar hyn o bryd yn cyflwyno elfennau o ansicrwydd a chymhlethdod dianghenraid a fyddai wedi'u datrys trwy gyflwyno pwerau dyfarnu graddau ymchwil.

2.10.1 Mae Cynllun Strategol y Brifysgol 2009 hyd 2014 a'i Strategaeth Ymchwil 2011 hyd 2014 yn nodi amcanion a gweithdrefnau a luniwyd i ddatblygu a chryfhau'r amgylchedd ymchwil. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar gryfderau mewn ymchwil cymhwysol - yn arbennig mewn gwyddoniaeth deunyddiau, opteg a chyfrifiadura - mewn ffyrdd a luniwyd i gefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol yn y rhanbarth ac i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Un o nodweddion canolog y dull yma oedd sicrhau bod y staff academiaidd newydd a benodir yn weithredol mewn ymchwilio. Anogir a chynorthwyr y staff presennol i ddatblygu meysydd o waith ymchwil ac ennill doethuriaethau.

2.10.2 Cefnogir y Strategaeth Ymchwil gan strwythurau trefniadaeth a rolau arwain newydd. Gan Bwyllgor Ymchwil a Menter y Brifysgol y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol, gyda chefnogaeth y Swyddfa Ymchwil. Mae'r holl staff academiaidd yn aelodau o un o'r ddau Sefydliad (gwelwch 'Ynghylch Prifysgol Glyndŵr', tudalen 3), lle mae'r cynlluniau gweithredol yn cynnwys targedau ymchwilio penodol a archwilir yn flynyddol. Mae'r Ysgol i Raddedigion yn gyfrifol i Bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol am reoli a monitro graddau ymchwil, a

hyfforddi a datblygu myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a'u goruchwylwyr. Mae chwe chanolfan ymchwil yn darparu seminarau, gweithgareddau hyfforddi a mentora sy'n cefnogi datblygiad y cymunedau ymchwil egniol. Caiff y strwythurau a'r rolau yma eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd gan y Pwyllgor Ymchwil a Menter.

2.10.3 Mae'r tîm adolygu'n cytuno â barn y Brifysgol ei hun bod yr amgylchedd ymchwil wedi'i ledaenu'n anghyson ar draws y sefydliad, ond nododd bod y buddsoddiadau, y strwythurau a'r rolau arwain a roddwyd ar waith yn briodol ac yn cynhyrchu buddion mesuradwy. Roedd y tîm o'r farn bod cyflwyno camau buddsoddi amlwg gan y Brifysgol i mewn i'w Strategaeth Ymchwil, a thargedau a meincnodau ychwanegol sy'n briodol i bob cam o ddatblygiad yr amgylchedd ymchwil, yn briodol. Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu gofyn am gynnwys strategaethau a thargedau ymchwil manwl yng nghynlluniau academiaidd blynyddol yr adrannau am fod yr adran academiaidd yn sylfaen allweddol i waith ymchwil nifer o staff a myfyrwyr. Efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried ymestyn y cyfnod prawf i staff ar ddechrau eu gyrfya y tu hwnt i'r 12 mis cyfredol er mwyn caniatáu cyflawni trothwyon gweithgareddau ymchwil wedi'u diffinio. Gallai hefyd ystyried rhoi fframwaith absenoldeb ymchwil mwy eang ac eglur yn ei le na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, a nodi'n fwy eglur oblygiadau athrawon ac eraill i gynllunio a thystio i'w gweithgareddau fel arweinwyr ymchwil.

2.10.4 Ar y cyfan, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y camau pwrpasol y mae'r Brifysgol wedi eu cymryd i wella'r amgylchedd ymchwil, ac i gefnogi staff a myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil ar draws yr holl ddisgyblaethau, yn briodol ac maent wedi cynhyrchu manteision mesuradwy.

2.10.5 Mae'r prosesau o ddethol, derbyn a chynefino myfyrwyr ymchwil wedi'u llywio gan Brifysgol Cymru (paragraff 2.10). Mae Cyfarwyddwr Cyswllt yr Ysgol i Raddedigion yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y swyddogaethau hyn i Brifysgol Cymru ac i Bwyllgor Graddau Ymchwil a Senedd Prifysgol Glyndŵr. Yn 2011-12, roedd gan y Brifysgol 116 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig cofrestredig, a dyfarnwyd 16 o raddau ymchwil. Mae oddeutu 60 y cant o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn rhan amser, ac mae 40 y cant yn aelodau o'r staff. Mae gan y Brifysgol hanes o gyfraddau cwblhau gweddol isel. Mae'n ymdrin â'r rhain ac maent yn gwella.

2.10.6 Cyfwelir â'r holl ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig gan ddau aelod o'r staff academiaidd, ac maent yn derbyn sesiwn gynefino a gwybodaeth yn unol â Fframwaith Academiaidd Cyffredin Prifysgol Cymru. Dangosodd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm arolygu bod y prosesau o gyfsweld, dethol a chynefino'n gynhwysfawr a phriodol.

2.10.7 Mae gan bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig dîm goruchwyllo, y mae un ohonynt yn gyfarwyddwr astudiaethau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am waith a chynnydd yr ymgeiswyr. Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr astudio a goruchwylwyr fod yn aelodau o staff academiaidd sydd â'r cymwysterau priodol, a dylent fod yn ymchwilwyr gweithredol, yn cyflawni meini prawf Prifysgol Cymru sy'n pennu nifer y myfyrwyr y gall unigolyn eu goruchwyllo ar yr un pryd. Mae'r Ysgol i Raddedigion yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i oruchwylwyr ac yn cadw cofrestrau o'r hyfforddiant a gymerir gan oruchwylwyr a'u llwythi goruchwyllo.

2.10.8 Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil wedi sefydlu system sy'n seiliedig ar bwytiau ar gyfer monitro a gwobrwyo ymgysylltiad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gyda rhaglenni hyfforddiant mewn sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus y mae'r Brifysgol yn eu darparu. Disgwylir i'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ymgysylltu'n llawn â'r Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Ddatblygu Ymchwilwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r staff bod y rhaglen hon yn effeithiol o ran adrodd, sicrhau a mesur goruchwyliaeth reolaidd a hyfforddiant priodol mewn sgiliau.

2.10.9 Mae cynnydd y myfyrwyr ymchwil wedi'i fonitro gan gofnodion y goruchwylion, a gan broses ffurfiol o fonitro'n flynyddol sy'n cynhyrchu adroddiadau manwl ar gyfer y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Mae'r tîm adolygu'n cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan adolygwyr allanol

y byddai'r system o fonitro'n flynyddol a'i effaith ar gyfraddau cwblhau wedi'i wella pe bai'r adroddiadau'n cynnwys data hanesyddol sy'n disgrifio'r cynnydd ers cofrestru. Mae'r tîm hefyd yn cytuno â'r argymhelliad y dylid delio ag adroddiadau monitro blynyddol drwy asesiad annibynnol cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil, fel y gallai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ymdrin â phatrymau cyffredinol a materion problematig.

2.10.10 Mae'r Brifysgol yn sicrhau adborth rheolaidd a chynhwysfawr gan fyfyrwyr ymchwil drwy'r broses fonitro flynyddol, yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a chynrychiolaeth myfyrwyr ymchwil ar y Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Pwyllgor Ymchwil a Menter. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu eu bod wedi cael gwybodaeth ac wedi rhoi adborth yn bennaf drwy eu goruchwylwyr. Er eu bod yn fodlon gyda'r oruchwyliaeth, hyfforddiant ac adnoddau, roeddent yn cadarnhau bod rhai ohonynt yn weddol unig, yn arbennig y rheiny oedd yn rhan amser. Mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr, roedd yr Ysgol i Raddedigion wedi sefydlu ystafell gyffredin yn ddiweddar ar gyfer ei holl fyfyrwyr ymchwil, fel safle ar gyfer seminarau traws-ddisgyblaethol a chanolfan gymdeithasol.

2.10.11 Dywedodd y Brifysgol nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau cyfredol i ddarparu rhaglenni ymchwil ôl-raddedig wedi'u seilio ar ei champws yn Llundain. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hyn yn beth doeth a chall, o ystyried y seilwaith dysgu a'r adnoddau cyfyngedig ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain.

Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol

2.11 Mae dull y Brifysgol o reoli darpariaeth gydweithredol wedi'i ddisgrifio'n gynhwysfawr yn ei Pholisi Cydweithredol a'r bennod ar ddarpariaeth gydweithredol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. I helpu i ddatblygu ei dull mwy uchelgeisiol o weithio gydag eraill, yn 2011 comisiynodd y Brifysgol archwiliad allanol o le'r ddarpariaeth ryngwladol a phreifat yn ei phortffolio cydweithredol, ac mae'r adroddiad sy'n deillio o'r archwiliad hwnnw wedi hysbysu datblygiad ei gweithdrefnau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar risgiau. Mae'r Pwyllgor Strategaeth Ansawdd wedi adolygu'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn rheolaidd ac mae'n ymddangos bod yma gynnydd da.

2.11.1 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod 'cytundebau partneriaeth yn cael eu gweithredu gyda chyfundrefnau neu sefydliadau partner neu, p'un a ydynt yn y DU neu'n rhyngwladol, ar yr amod eu bod yn gallu profi ymrwymiad i ragoriaeth mewn sicrhau ansawdd a safonau, bod ganddynt y gallu ariannol ac academaidd priodol, y seilwaith priodol i gefnogi darpariaeth, a'u bod mewn sefyllfa gyfreithiol i gytundebu'r ddarpariaeth'. Mae'r prosesau ar gyfer comisiynu, dilysu, monitro ac adolygu rhaglenni yr un fath ag ydynt i'r rheiny a ddarperir ar ei gampysau ei hun, ond gyda chymeradwyaeth sefydliadol o'r bartneriaeth ar wahân, gyda ffocws penodol ar ddarparu rhaglen gan y partner (paragraffau 1.1.2 a 1.4 i 1.4.5).

2.11.2 Mae panel cymeradwyo'n cymeradwyo partneriaid. Mae'r digwyddiad ffurfiol yn digwydd ar ddiwedd dilyniant cynhwysfawr o archwiliadau ac ymholiadau, a chesglir y dystiolaeth gan ddefnyddio templedi strwythuredig. Ceir ymweliad cychwynnol gan aelod o'r Grŵp Gweithredol, ac yn dilyn hynny gelwir cyfarfod o staff uwch rhwng y ddau sefydliad i archwilio'r cydweithrediad posibl. Cesglir digon o dystiolaeth i ddatblygu'r achos busnes ariannol, yr asesiad risg cychwynnol, ac i alluogi'r Brifysgol i gychwyn ymholiadau diwydrwydd dyladwy. Mae canlyniadau cadarnhaol yn galluogi'r Grŵp Comisiynu i ystyried y cynnig amlinellol cyn i'r datblygiad manwl barhau.

2.11.3 Mae'r panel cymeradwyo partneriaid yn cynnwys nifer fechan o staff profiadol, mewnol, sy'n dod â'r elfen o brofiad academaidd a chymorth myfyrwyr i'r panel. Does dim aelod panel allanol. Hysbysir y digwyddiad gan gyfres gynhwysfawr o wybodaeth, ac yn ddelfrydol mae'n digwydd ar safle'r partner. Os nad yw hyn yn bosibl, disgwylir y bydd un o'r panel wedi ymweld â'r partner cyn rhoi'r gymeradwyaeth. Trafodir adroddiad ac argymhellion y panel gan y Pwyllgor

Strategaeth Ansawdd, ac maen nhw'n gwneud argymhelliad terfynol ynglŷn â chymeradwyaeth i'w ystyried ynghyd â phenderfyniad gan y Senedd. Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau hyn wedi'u gwneud yn drwyadl a gyda gofal.

2.11.4 Yn dilyn cymeradwyo'r bartneriaeth, gellir dod â materion sy'n ymwneud yn benodol â rhaglen i ben. Yn aml iawn bydd y rhaglen yn bodoli'n barod ac yn cael ei darparu ar un o safleoedd y Brifysgol. Mewn rhai achosion, bydd rhaglen newydd wedi'i llunio a'i chymeradwyo i'w darparu'n benodol gan y partner newydd. Ni fydd y Brifysgol ond yn cymeradwyo rhaglenni y mae ganddi arbenigedd academaidd priodol ar eu cyfer i gynllunio a goruchwyllo'r cwricwlwm a'i ddarpariaeth. Bydd y panel cymeradwyo bob amser yn cynnwys arbenigwr pwnc allanol, a lle bynnag y bo'n bosibl bydd yn cwrdd ar safle'r sefydliad partner. Mae'r gwaith craffu i gymeradwyo'n canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud ag adnoddau ffisegol a staff, cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ymwneud yn benodol â rhaglen, ac yn arbennig ar ystyried 'cynllun darparu cydweithredol', yr oedd y tîm adolygu'n ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol.

2.11.5 Dylai'r digwyddiad cymeradwyo darpariaeth ddigwydd fel arfer yn y sefydliad partner ond, mewn ffordd debyg i'r broses gymeradwyo partneriaid, gallai ddigwydd o bell ar yr amod bod un o'r panel yn ymweld â'r safle. Canfu'r tîm fod cofnodion y prosesau cymeradwyo'n dangos eu bod wedi'u gweithredu'n ofalus ac yn fanwl. Fodd bynnag, gallai partner gael ei gymeradwyo, a gall y partner hwnnw ddarparu rhaglen, heb ymweliad gan gymheiriaid allanol i ystyried yr adnoddau a chyfleusterau eraill ar y safle. Teimlai'r tîm adolygu y gallai hyn o bosibl gyfaddawdu dilysrwydd y broses gymeradwyo, ac mae'n **argymell** bod y Brifysgol yn cynnwys aelodau panel allanol ymhob ymweliad cymeradwyo rhaglenni â chanolfannau cydweithredol. Yn dilyn cymeradwyo darpariaeth a chymeradwyo partner, llofnodir memorandwm cytundeb. Canfu'r tîm adolygu fod y cytundebau'n briodol o gynhwysfawr.

2.11.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod ystod o 'fodelau' o waith partneriaeth, yn cynnwys cytundebau trosglwyddo, cynnydd, allgymorth (wedi'i ddarparu gan staff y Brifysgol ar safle'r partner), etholfreinio, a dilysu cwricwlwm y partner. Mae wedi diffinio'n ofalus brosesau ar gyfer pob model.

2.11.7 Mae 'fframwaith rheoli partneriaethau' y Brifysgol yn disgrifio sut y rhoddir rhaglenni ar waith. Mae'n pwysleisio rolau tiwtoriaid cyswllt academaidd sy'n gweithredu fel y cyfrwng cyfathrebu allweddol, ymweliad rheolaidd â'r partner, a chynhyrchu adroddiad blynyddol am y berthynas. Mae'r dyletswyddau wedi'u diffinio'n dda ac roedd y tîm adolygu o'r farn bod y rôl yma'n hanfodol. Canfu'r tîm hefyd fod staff yn adrannau'r Brifysgol a'r sefydliadau partner yn credu eu bod oll yn aelodau o dîm cydlynol.

2.11.8 Lle bo'n bosibl, penodir yr un arholwyr allanol â'r rheiny a benodir ar gyfer yr un rhaglenni yn y Brifysgol. Gofynnir i bob sefydliad partner gyflwyno adroddiad monitro blynyddol, sy'n derbyn ystyriaeth gydag adroddiadau monitro blynyddol 'cartref'. Adolygir rhaglenni bob pum mlynedd, unwaith eto drwy brosesau arferol (paragraff 1.4.3). Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau ansawdd academaidd yma'n gweithio'n llwyddiannus: er enghraifft, mewn un achos dangosodd adborth yr arholwr allanol a'r broses o fonitro ac adolygu'n flynyddol bod pryderon difrifol am ansawdd academaidd, ac am fod gweithredu adferol wedi'i ystyried yn amhosibl, roedd y bartneriaeth yn cael ei diddymu'n raddol.

2.11.9 Mae byrddau asesu'n ystyried canlyniadau gan y Brifysgol a'r sefydliadau partner ar yr un pryd. Cyflwynir canlyniadau ar wahân ar gyfer pob safle darparu fel bod y byrddau'n gallu pennu perfformiadau gwahanol, ac felly'n gallu cychwyn gweithredu adferol yn well neu ganfod cyfleoedd i wella.

Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu

2.12 Mae'r Brifysgol yn darparu nifer fechan ond cynyddol o raglenni sy'n cyfuno addysgu wyneb yn wyneb, traddodiadol, wedi'i seilio ar y campws gyda dysgu ac addysgu ar-lein drwy ei rith-amgylchedd dysgu. Mae datblygiad y rhaglenni hyn wedi'i gynorthwyo gan Dystysgrif Uwchraddedig mewn E-Ddysgu. Mae cefnogaeth arbenigol ar gael gan y Ganolfan Dysgu, Addysgu ac Asesu, sy'n cynnig gweithdai datblygu staff mewn e-addysgu ac yn cefnogi rhwydwaith anffurfiol o'r rheiny sydd â sgiliau a diddordebau mewn e-addysgu, y mae gan rai ohonynt fwy na 10 mlynedd o brofiad o ddarparu'r rhaglenni hyn. Ar amser yr adolygiad, roedd 19 o staff y Brifysgol wedi cwblhau'r Dystysgrif Uwchraddedig ac roedd saith yn ei chymryd ar y pryd. Roedd rhaglen gradd meistr mewn e-ddysgu'n cael ei datblygu.

2.12.1 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn gofyn bod trefniadau addysgu ac asesu'n sicrhau bod profiad y myfyrwyr ar gyfer y rheiny sy'n astudio o bell o leiaf yn gyfartal â phrofiad y myfyrwyr ar y campws. Wrth ddatblygu elfennau ar-lein cyrsiau, rhaid i dimau rhaglenni ystyried penodau perthnasol y Cod Ansawdd.

2.12.2 Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n gofyn bod panelau cyn dilysu a phanelau dilysu'n cael cyfle i brofi'r un ddarpariaeth ar-lein ag y bydd y myfyrwyr eu hunain yn ei phrofi. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn gosod disgwyliadau gofynnol yn ymwneud â gwefannau ar gyfer darpariaeth dysgu o bell/e-ddysgu. Mae'n rhaid i gynigion gynnwys tystiolaeth o'r ffordd y bydd tîm y rhaglen yn hwyluso ymgysylltiad ystyrlon â'r rhaglen, er enghraifft drwy ddefnyddio cefnogaeth gan gymheiriaid, dysgu gyda chymheiriaid a chydweithrediad ar draws y garfan myfyrwyr, ac mae'n rhaid iddynt ddangos bod mecanweithiau yn eu lle i fonitro ymgysylltiad â darpariaeth ar-lein.

2.12.3 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod defnydd da'r Brifysgol o'i harbenigedd eang a chryf mewn datblygu a darparu dulliau e-ddysgu'n **nodwedd o arfer da**.

Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle

2.13 Mae gan y Brifysgol gyfrannau sylweddol o fyfyrwyr ar raglenni sy'n arwain at gymwysterau ac achrediadau proffesiynol. Yn ogystal, mae tua 45 y cant o fyfyrwyr yn rhan amser a gall nifer o'r rhain gynnwys elfennau o ddysgu seiliedig ar waith yn eu rhaglenni. Felly mae'n rhaid i'r Brifysgol drefnu, monitro ac asesu ystod gymhleth o amgylcheddau dysgu a ffurfiau o fentora a goruchwyliaeth. Mae'r sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol i wneud hyn wedi'u lleoli i raddau mawr yn yr adrannau academaidd sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni penodol. Y rôl ar y lefel sefydliadol yw sicrhau a phrofi'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith. Mae'n gwneud hyn i raddau mawr drwy ddilysu, monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys meini prawf penodol a manwl ar gyfer cymeradwyo ac adolygu dysgu seiliedig ar waith. Cyn i raglen gael ei chymeradwyo neu ei hail-gymeradwyo, mae angen datganiad cynhwysfawr sy'n dyrannu'r cyfrifoldeb am elfennau allweddol goruchwyliaeth, hyfforddiant, ac iechyd a diogelwch.

2.13.1 Archwiliodd y tîm adolygu gytundebau lefel gwasanaeth a memoranda cytundeb sy'n llywio lleoliadau ar raglenni hyfforddiant proffesiynol mewn Nyrsio, Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol, a Chwnsela a Seicotherapi. Roedd trefniadau penodol a dyraniad y cyfrifoldebau'n amrywio ymhob achos. Roedd tystiolaeth glir o sylw systematig i elfennau craidd, megis iechyd a diogelwch, ac yswiriant; cyfrifoldebau partneriaid a darparwyr dysgu seiliedig ar waith; cyfrifoldebau a hawliau myfyrwyr; cymwysterau a hyfforddiant staff sy'n cyflwyno'r rhaglenni; a manylion rolau allweddol megis cydlynwyr lleoli, mentoriaid a thiwtoriaid cyswllt.

2.13.2 Mae trefniadau cynhwysfawr ac amrywiol yn caniatáu i fyfyrwyr fwydo adborth yn ôl yn rheolaidd am eu profiadau a lleisio pryderon a chwyno lle bo'n angenrheidiol. Un nodwedd nodedig o'r dystiolaeth a archwiliwyd gan y tîm adolygu oedd yr adroddiadau positif mewn

gwerthusiadau myfyrwyr a lefelau uchel o foddhad a fynegwyd yng nghanlyniadau'r AMC ar gyfer lleoliadau ymarfer.

Siarter y myfyrwyr

2.14 Mae Urdd y Myfyrwyr a'r Brifysgol wedi datblygu Siarter y Myfyrwyr, a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan Urdd y Myfyrwyr, Cyngor y Myfyrwyr a'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr. Mae'n nodi goblygiadau a disgwyliadau cyfartal yr holl fyfyrwyr a'r Brifysgol. Sicrheir ei fod ar gael yn eang ar wefan y Brifysgol, yn y pecyn o ddefnyddiau a ddarperir i fyfyrwyr newydd, ac yn swyddfeydd Urdd y Myfyrwyr.

2.14.1 Roedd cynrychiolwyr Urdd y Myfyrwyr o'r farn bod y Siarter yn esiampl dda o ddisgwyliadau rhesymol, a'i bod yn fenter werth chweil. Ni allent roi esiamplau o'r ffordd y gellid ei ddefnyddio neu'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni, ond roeddent yn teimlo na fu'n rhaid defnyddio'r Siarter mewn ffordd wrthwynebol, o ystyried safon uchel y berthynas rhwng y myfyrwyr a'r Brifysgol.

2.14.2 Bydd y Siarter wedi'i adolygu cyn dechrau pob blwyddyn academiaidd, a chytunir ar unrhyw newidiadau ar y cyd rhwng y Brifysgol, Urdd y Myfyrwyr a Chyngor y Myfyrwyr.

3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae'r gynulleidfa darged o'r farn bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas i'r pwrpas ac yn hygyrch ac mae'n bosib ymddiried ynddi. Mae rhesymau'r tîm am y casgliad hwn i'w gweld isod.

Canfyddiadau

3.1 Mae'r Adran Farchnata'n gyfrifol am reoli cynhyrchiad gwybodaeth gyhoeddus a'r wefan, ac mae'n cydlynu'r prosesau blynyddol o wirio ac addasu'r wybodaeth hon gan staff mewn adrannau academiaidd. Mae'r wefan sy'n wynebu'r cyhoedd yn glir ac yn hawdd ei llywio. Mae'r wefan gyfan ar gael yn y Gymraeg hefyd. Mae'r Brifysgol wedi disgrifio ei hymrwymiaid i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ei Chynllun Iaith Gymraeg 2012, a gyhoeddwyd yn unol â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Defnyddir cynllun gweithredu i fonitro cynnydd. Mae'r holl gyfryngau gwybodaeth gyhoeddus a mewnlol megis posteri, cyhoeddiadau, palisau, datganiadau i'r wasg, taflenni, fideo neu raglenni gweledol eraill, hysbysebion staffio a gwasanaethau cynghori, oll yn ddwyieithog a chanddynt nodweddion cynhyrchu sy'n union yr un fath â'i gilydd.

3.2 Mae'r holl wybodaeth gyhoeddus a gyhoeddwyd gan sefydliadau partner wedi'i gwirio a'i llofnodi gan y Brifysgol. Gwneir gwiriadau blynyddol hefyd drwy'r broses o fonitro ac adolygu'n flynyddol.

3.3 Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm bod yr wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn cyn mynediad ac wedyn wedi bod yn gywir a hygyrch. Roedd yr arweiniad ar feini prawf a gweithdrefnau ar gyfer mynediad yn glir a hygyrch. Mae'r Canllaw i Fyfyrwyr yn gweithredu fel porth effeithiol i'r amrywiaeth o wybodaeth y mae myfyrwyr yn debyg o fod eu hangen.

3.4 Mae'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ar wefan y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Gyfres Wybodaeth Allweddol (KIS) a'r Gyfres Wybodaeth Ehangach sy'n ofynnol

gan CCAUC. Cyhoeddir yr wybodaeth KIS ar y tudalennau gwe ar gyfer Cyrsiau i Israddedigion. Mae grŵp prosiect KIS yn monitro ac yn diweddarau gwybodaeth KIS yn flynyddol.

3.5 Mae gan Brifysgol Glyndŵr Llundain ei gwefan ei hun, sydd wedi'i chysylltu'n uniongyrchol drwy wefan y Brifysgol. Nododd y tîm adolygu bod gwefan Prifysgol Glyndŵr Llundain yn wahanol yn ei hymddangosiad i'r brif wefan, ac yn barnu y dylai'r Brifysgol ddatblygu mwy o gyfathiant yn y maes yma.

4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Glyndŵr **yn cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Canfyddiadau

4.1 Barn y Brifysgol, a fynegwyd i'r tîm adolygu yn y ddogfen hunanwerthusiad ac mewn cyfarfodydd gyda'r staff, oedd y byddai dull pwrpasol o wella wedi'i adeiladu i mewn i'r strwythur academiaidd newydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2010. O fewn y strwythur newydd, roedd y Brifysgol wedi cyflwyno ei ddull comisiynu nodedig o gynllunio a dyrannu adnoddau wedi'u cyfuno, gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i fesur y deilliannau. Yn y ffordd yma, gallai'r Brifysgol osod blaenoriaethau, comisiynu adrannau academiaidd a Sefydliadau i'w darparu nhw, ac yna asesu'r canlyniadau a'r costau yn nhermau'r DPA. Esboniwyd ymhellach bod y strwythur pwyllgorau, wedi'i gyfuno â phenodi Dirprwy Is-Gangellorion ar gyfer pob un o'r meysydd hyn: Addysgu a Dysgu, Ymchwil, a Gweithrediadau (cyflenwi'r gwasanaeth), yn caniatáu cyflawni 'un strategaeth drosfwaol ar gyfer gwella'.

4.2 Yn esiamplau o'r ffordd roedd y strwythurau newydd, y rolau rheoli a'r prosesau penderfynu yma wedi gwella profiad dysgu'r myfyrwyr, tynnodd y Brifysgol sylw'r adolygwyr at nifer o ddatblygiadau ac arferion arloesol diweddar. Amlygodd yn arbennig: gryfhau llais y myfyrwyr drwy gynyddu cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyffwrdd penderfynu'r Brifysgol a chasglu mwy o adborth gan fyfyrwyr ar addysgu; cynyddu gweithgareddau datblygu a hyfforddi staff; rhannu arferion da mewn addysgu mewn ffordd fwy systematig ar draws y sefydliad; a thargedu adrannau academiaidd penodol gydag adnoddau a chefnogaeth ychwanegol.

4.3 Esboniodd y Brifysgol mai'r ffactorau allweddol sy'n gyrru gwelliant oedd creu'r Ganolfan Dysgu, Addysgu ac Asesu a phenodi Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Profiad y Myfyrwyr, y ddau yn 2011. Darparwyd esiamplau niferus i ddangos sut roedd y Ganolfan a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Ymgysylltiad Myfyrwyr) gyda'i gilydd yn arwain gwelliant ym mhrofiad dysgu'r myfyrwyr.

4.4 Yn ei gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'r staff, ac yn ei adolygiad o'r ddogfennaeth, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod gwelliannau sylweddol yn ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Roedd y datblygiadau hyn wedi'u cyfuno â chynnydd o 30 y cant yn nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd rhwng 2008 - pan roddwyd y teitl prifysgol - a 2011. Yn arbennig, cadarnhaodd swyddogion Urdd y Myfyrwyr, yr oedd rhai ohonynt wedi bod yn y Brifysgol am lawer o'r amser yma, bod profiad cyfan y myfyrwyr wedi'i drawsnewid ac wedi gwella'n fawr yn ystod y cyfnod.

4.5 Barn y tîm adolygu oedd bod tystiolaeth sylweddol i gefnogi'r amrywiaeth eang o welliannau a hawliwyd gan y sefydliad. Roedd hi'n amlwg hefyd bod rhai o'r datblygiadau hyn wedi bod yn angenrheidiol er mwyn i'r sefydliad gyflawni rôl prifysgol. Yn eu hanfod mae llawer o'r newidiadau sydd wedi'u diffinio fel gwelliannau yn ymwneud â busnes craidd ac arferol prifysgolion a sefydlwyd yn hirach. Nododd y tîm adolygu adroddiad diweddar y Pwyllgor Strategaeth Ansawdd i'r Senedd ym mis Tachwedd 2012 a ddywedodd y byddai rhan o'i gynllun gwaith ar gyfer 2012-13 yn cynnwys datblygu Strategaeth Gwella Ansawdd. Erbyn hyn, er mwyn llwyddo i greu prifysgol sydd yn ei llawn dwf, roedd y tîm adolygu'n cefnogi'r farn bod angen dull mwy dilyniannol o wella cyfleodd dysgu, a hwnnw'n ddull ag iddo fwy o ffocws.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau allweddol yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan y mwyafrif o dermau ddiffiniadau 'gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol (Cymru)*, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru-llawlyfr-2012.aspx.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuringstandardsandquality/pages/default.aspx.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx.

canlyniad dysgu Yr hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Cod Ansawdd Term byr am **God Ansawdd Addysg Uwch y DU**, sef y gyfres i'r DU gyfan o bwyntiau cyfeirio i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r Disgwyliadau y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

credyd(au) Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi'i fynegi fel 'nifer o gredydau' ar lefel benodol.

cyfleoedd dysgu Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys **rhaglenni astudio** a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios) a datblygiad staff.

datganiad meincnod pwnc Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

diffiniad gweithredol Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adroddiadau.

ehangu cyfranogaeth Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

fframwaith Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd y **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

fframwaith cymwysterau addysg uwch Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)* a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban*.

gwelliant Cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y **cyfleoedd dysgu**. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

gwybodaeth gyhoeddus Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

manylebau rhaglen Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

nodwedd o arfer da Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

rhaglen (astudio) Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

safon academaidd trothwy Y safon ofynnol y dylai myfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddsbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academaidd**.

RG 1159 06/13

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2013

ISBN 978 1 84979 855 6

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786